

Cofnodion Cyfarfod y 7fed Tachwedd 2017

Yn bresennol :- Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Richard Ll Jones, Jane Pierce, Rhian Evans-Hill, Gwawr Wyn Roberts, Gareth Wyn Griffiths, Emma Chappell, Sion Jones, Martin Davies a R. Hefin Williams
Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

1. Ymddiheuriadau.

Dim

2. Datgan buddiant

Dim

3. Cofnodion Cyfarfod 3ydd Hydref 2017

Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Betsi Cadwaladr – Darllenwyd llythyr mewn ymateb i bryder fod cynlluniau i symyd adrannau oddi yno, ond cafwyd sicrhad y bydd Ysbyty Gwynedd yn dal i weithredu gan gynnig mynediad lleol i'r rhan fwyaf o gleifion.

Sedd i Gysgodfan Bws Dinorwig – Yn dilyn derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod yn iawn gosod y sedd a gynigiwyd gan Andy a Caroline Wigley, yn y cysgodfan bws ger Bro Elidir, cyn belled a bod y sedd wedi ei bolltio i lawr, fel na fydd posib ei malurio, penderfynodd y Cyngor i'r clerch gysylltu i wneud trefniadau i osod y sedd yno. Diolch iddynt am eu rhodd.

Cysgodfan Rhiwlas – Yn dilyn cyfarfod â swyddog o Gyngor Gwynedd yn Rhiwlas, mae caniatad bellach wedi ei roi i osod Cysgodfan Bws ar ganol yr allt, ger tai CCG ar lleoliad yr hen ffôn BT, cyn belled nad oes gwrthwynebiad gan breswylwyr y tai gerllaw. Penderfynwyd fod Rhian a Hefin am ymweld a bob tŷ yn y stâd i hysbysu trigolion a chadarnhau nad oes gwrthwynebiad. Bydd rhaid nodi unrhyw wrthwynebiad trwy lythyr i'r Clerc.

Llwybrau

Rhif 93 i Waun a Cerrig Gwynion – Derbyniwyd llythyr yn nodi mai gyda'r tîrfeddianwr mae'r cyfrifoldeb o lanhau'r cyrsiau dŵr, a bwriad y cyngor Sir, yw cysylltu a'r tîrfeddianwr ynglyn a'r broblem. Er, rhaid cofnodi, gan ein bod yn mynd trwy gyfnod o dywydd gwlyb, ni fydd posib cael cloddiwr mecanyddol ar y safle hyd nes cael cyfnod rhesymol o sych y flwyddyn nesaf.

Rhif 69 Cefn y Braich, Rhiwlas – Derbyniwyd ymateb yn dilyn ein cŵyn yn nodi fod angen ail sefydlu y ffôs ar ymylon y llwybr i sicrhau na fydd yn gorlifo ac yn creu rhwystr i gerddwyr. Bydd y gwaith yma yn cael ei roi ar y cynllun waith yn ystod y misoedd nesaf.

Parcio anghyfreithlon – Yn dilyn sawl cŵyn yn yr ardal am barcio anghyfreithlon, mae'r swyddogion yn mynd i ymweld a'r ardal yn amlach. Mae croeso i unrhyw un gysylltu a'r **Adran Gorfodaeth parcio 01286 6792178** os oes ceir yn parcio yn anghyfreithlon neu yn creu rhwystr.

Llythrau Diolch – Derbyniwyd gair o ddiolch a gwerthfawrogiad am rodd ariannol gan: Clwb Rhiwen, Neuadd Rhiwlas, Cylch Meithrin Deiniolen, Eisteddfod Penisarwaun, Clwb Bro Bethel, Neuadd Penisarwaun, Seindorf Arian Deiniolen, Eisteddfod Bethel a Phensiynwyr Penisarwaun

5. Gohebiaeth a materion eraill

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinorwig

Mae'r Gwaith o adeiladu yr uchod wedi cychwyn ac yn debygol o fod wedi ei orffen Mis Mawrth nesaf – dibynnu ar y tywydd wrth gwrs. Cwmni Griffiths sydd yn gyfrifol am y gwaith hwn ar ran Bwrdd Dwr Cymru.

Arolwg Etholiadau Seneddol Yng Nghymru.

Derbyniwyd llythyr yn cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer y newidiadau hyn. Mae cyfle i bawb wneud sylwadau ar hyn cyn 11 Rhagfyr 2017. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan y comisiwn: www.comffin-cymru.gov.uk

Hysbysfwrdd Rhiwlas

Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn Rhiwlas yn datgan yn gryf faint fuasai Rhiwlas yn elwa o gael hysbysfwrdd yn y pentref, lle gellid cyhoeddi newyddion cymunedol a gwahanol weithgareddau gan fudiadau'r pentref. Mis diwethaf, rhoddwyd cyfraniad o £100 tuag at cronfa sydd wedi ei ddechrau ar gyfer hyn. Yn anffodus, gan fod y cyngor cymuned wedi rhannu rhoddion am eleni, nid oes posib ystyried dim mwy y flwyddyn ariannol yma. Tybed, efallai fod eraill yn y pentref yn teimlo yr angen am hysbysfwrdd nawr ac yn gallu trefnu gweithgaredd ymysg eu gilydd i godi ychydig mwy at y gronfa yma.

Ystafell Newid a Chae Peldroed Y Bwthyn, Deiniolen

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn datgan eu bod, yn dilyn targedau arbedion i'r gwasanaeth hamdden, wedi llwyddo i gomisiynnu achos busnes a sefydlu cwmni a reolir gan y Cyngor i ymgymryd â rheolaeth y Canolfannau Hamdden. Mae'r gwasanaeth nawr yn edrych ar opsiynau ynglŷn a threfniadau rheoli adnoddau sydd yn disgyn tu allan i hyn. Megis parciau, meysydd chwarae ac yn achos Deiniolen, yr adnodd bwysig yma i'r pentref. Mae'n edrych yn debyg fel bod yr ystafelloedd newid, a'r cae peldroed dan fygythiad o gael ei gollu, os na byddwn yn ofalus, ac yn sicr nid oes neb eisiau gweld colli adnodd arall o fewn y pentref. Mae'r Cyngor Cymuned am wahodd swyddogion o'r cyngor Sir i gyfarfod er mwyn trafod beth yw'r opsiynau ymhellach.

6. Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Llys Brynrefail – Diwygio amod 7 o ganiatad cynllunio presennol er mwyn caniatau gosod carafan ar y safle yn ystod y broses adeiladu.

Hafan y Wennol – Creu safle Glampio gan gynnwys 6 Pabell Gloch, cysgodfan Bwyta ac adeilad mwynderol.

7. Archwilydd Mewnol

Yn dilyn ymddeoliad Mr. John Roberts, cafwyd cadarnhad fod Luned Fon Jones, o dim archwilio mewnol Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gynnig gwasanaeth fel archwilydd mewnol i ni. Penderfynwyd i'r clerc gysylltu a hi i drafod a cael gwybodaeth pellach a ffioedd ayyb.

8. Cyllideb a Praesept 2018/2019

Roedd y clerc wedi rhannu y wybodaeth ddiweddar am sefyllfa ariannol ynghyd a amcangyfrif o'r sefyllfa ar ddiwedd Mawrth 2018. Credir y bydd yna falans ar oddeutu 10mil, os na fyddwn wedi derbyn anfoneb am halen gan Y Cyngor. Nododd y clerc ei fod yn hanfodol fod unrhywbeth rydym yn bwriadu wario arno yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyllido yn ofalus ar ei gyfer, os na wneir hyn, nid oes posib gallu gwario ar ddim o fewn

ddim un pentref. Mae awdit Cymru wedi nodi yn barod eu bod yn edrych yn fwy manwl ar gyllidebau a balansau eleni, ac y pwysigrwydd o nodi pob peth yn y cyllideb. Felly, mae yn rhaid rhoi meddwl o ddifri o fewn anghenion y plwyf, a blaenorieuthu hynny i amserlen a neu gyllideb.

Rhoddwyd cynnig ar un o ddau bwynt:

1. Pawb yn dod a rhestr ac yna penderfynnu a blaenorieuthu wedyn
Neu
2. Penderfynnu ar wahanol agweddau o fywyd y plwyf yn flynyddol fel prosiect.

Yn ngolwg hyn, penderfynwyd a chytunwyd ar bwynt 1. Pawb i greu rhestr i'w drafod yn y cyfarfod nesaf er mwyn penderfynnu a blaenorieuthu. Yn ystod y mis, y clerc i greu rhestr o gostau sefydlog tebygol y cyngor am y flwyddyn 2018/2019 erbyn y cyfarfod nesaf.

9. O Gwmpas y Bwrdd

Bethel – Cysylltu a Priffyrdd ynglyn a gwteri yn llawn dail a baw o Ty Mawr i Fethel.

Deiniolen – Dywedodd Elfed ei fod wedi cael cais am arwydd Arhosfan bws gyferbyn a Pen y Golwg. Mae hwn yn gais arbennig, gan fod y cais yn dod gan breswlydd sydd yn rhannol ddall. Gan fod y pellter o'r safle bws agosaf ddim yn 800metr, nid oes rhaid i'r Cyngor Sir ofalu am arwydd. Rhoddodd gais i'r cyngor Cymuned ar ran y preswylwyr am gael arwydd ar gôst oddeutu £150. Cytunwyd yn unfrydol oherwydd fod yn gais yn ymwneud ac anabledd.

Capel Ebeneser – Oherwydd bod llawer o sylw wedi roi i werthiant y capel yn dilyn fideo gan y prynwyr ar wefanau cymdeithasol, penderfynwyd codi ymwybyddiaeth a'r sefyllfa presennol i'r Cyngor Cymuned. Mae llawer iawn o ansicrwydd gan bobl y pentref yn dilyn gweld beth yw gobeithion y prynwr o wneud yn yr adeilad. Ar hyn o bryd, nid yw'r prynwr wedi talu ond blaendal o £4000, ac mae ganddo – yn dilyn estyniad hyd at y 17eg o Dachwedd i dalu y balans.

Brynrefail – Mae wedi mynd yn hynod o anodd a pheryglus i groesi y lôn o Trem Eilian i'r pentref. Dywedwyd fod plant ysgol yn gorfod croesi i'r cysgodfan bws. Tybed oes modd gyrru cais am croesfan neu o leiaf cyfyngu cyflymdra ar y lôn. Penderfynwyd gefnogi hyn a gyrru cais i Cyngor Gwynedd.

Parcio Trem Eilian, Brynrefail – Mae cael lle i barcio ar y stâd yn mynd yn amhosib, hyd yn oed er bod preswylwyr gyda bathodynau glas. Mae llain o dir gwyrdd o flaen y tai, tybed oes modd troi hwn yn ardal parcio i dai CCG. Credir fod o leiaf 4 o'r tai yn eiddo i CCG.

Dinorwig – Mae'n ymddangos fod yna broblem parcio difrifol yn stâd Bro Elidir. Llawer o barcio gan lawer sydd yn aros mewn tai gwyliau ac yn amddifadu preswylwyr Bro Elidir o lefydd parcio. Y clerc i gysylltu a swyddog perthnasol yn CCG i weld os oes modd trefnu i gael cyfarfod ar y safle i weld beth ellir ei wneud.

Gor yrru – Mae yna gor-yrru rhwng ben Gallt y Foel ac Allt Ddu yn Ninorwig. Gyda'r hen ysgol yn denu pobl a cheir, traffic ymwelwyr yn aros mewn tai gwyliau, heb sôn am y nifer sylweddol o ymwelwyr gyda cheir a bysiau mini ag ati i Allt Ddu. Mae'n amser bellach i osod cyfyngiadau cyflymdra yn yr ardal. Y clerc i gysylltu ac Adran Ffyrdd a thrafnidiaeth y Sir ynglyn a hyn cyn i ddamwain difrifol ddigwydd.